Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-15-17 Papur 3/ Paper 3

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

12 Mai 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

Diolch i chi am eich llythyrau diweddar yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) ('y Bil').

Yn y cyfarfod ddoe, cytunodd y Pwyllgor y dylwn i ysgrifennu atoch yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion cyn eich sesiwn dystiolaeth ar 25 Mai.

- Wrth ddatblygu cynigion y Bil:
  - pa waith a wnaeth Llywodraeth Cymru i ymgynghori â thenantiaid a sut wnaethoch chi sicrhau eich bod yn cael amrywiaeth eang o safbwyntiau;
  - a wnaethoch chi ofyn am farn tenantiaid mewn ardaloedd lle mae'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael eisoes wedi cael eu hatal, ac a wnaethoch chi ofyn am eu barn am godi'r gwaharddiad i roi cyfle olaf iddynt brynu eu cartrefi cyn y diddymu arfaethedig;
- Rydym wedi cael tystiolaeth gan randdeiliaid yn nodi na fydd tenantiaid sy'n byw mewn ardaloedd awdurdod lleol lle mae'r hawl i brynu (a hawliau

cysylltiedig) eisoes wedi cael eu hatal o dan y Mesur Tai 2011 yn cael cyfle pellach i arfer yr hawliau hynny. (O dan y Mesur, bydd tenantiaid eraill yn cael cyfnod o flwyddyn o leiaf i arfer eu hawliau.) A allwch roi manylion ynghylch pa ystyriaeth gyfreithiol rydych chi wedi'i rhoi mewn perthynas â'r canlynol:


- disgwyliadau dilys y tenantiaid yn yr ardaloedd lle mae'r hawliau wedi'u hatal, os ymgynghorwyd â nhw ynghylch atal eu hawliau ac nid ynghylch eu diddymu;
- hawliau dynol y tenant o ran Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae paragraff 3.33 o'r Memorandwm Esboniadol, o dan y teitl Hawliau Dynol, yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyfnod o ddeuddeg mis i denantiaid arfer eu hawliau "yn sicrhau'r cydbwysedd teg <u>sydd ei angen</u> rhwng hawliau'r tenant a budd ehangach y cyhoedd i ddiogelu'r stoc o dai cymdeithasol." Sut ydych chi'n cyfiawnhau'r ffaith nad oes gan denantiaid yn yr ardaloedd hynny lle mae'r hawliau wedi'u hatal unrhyw amser i arfer eu hawliau;
- hawliau dynol y tenant o ran gwahaniaethu o dan Erthygl 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol lle bydd tenantiaid sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol yn cael eu trin yn wahanol; a'r
- risg y bydd tenantiaid yr effeithir arnynt yn yr ardaloedd hynny lle mae'r hawliau wedi'u hatal ar hyn o bryd yn cychwyn adolygiad barnwrol, fel y nodwyd yn y dystiolaeth sydd wedi dod i law.

- Yn eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill, fe wnaethoch chi roi eglurhad defnyddiol o ddiben adrannau 2 a 4 o'r Bil a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael. Yn dilyn ymlaen o hyn, hoffem pe gallech amlinellu pam mae'r adrannau hyn wedi'u drafftio i gyfeirio at gyfyngu ar yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig oni bai ei fod yn annedd o 'stoc a osodwyd yn flaenorol'. Er eglurder, a allai'r

adrannau hyn gyfeirio yn lle hynny at yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig o ran "anheddau sy'n newydd i'r stoc tai cymdeithasol"?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb cyn y cyfarfod ar 25 Mai, ac erbyn dydd Iau 18 Mai yn ddelfrydol.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.